# EVANS, JOHN (1858 - 1963); gweinidog (A) ac athro yn y Coleg Coffa, Aberhonddu

**Enw:** John Evans
**Dyddiad geni:** 1858
**Dyddiad marw:** 1963
**Rhiant:** Eleanor Evans
**Rhiant:** David Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (A) ac athro yn y Coleg Coffa, Aberhonddu
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** William Thomas Pennar Davies

Ganwyd 12 Mai 1858 yn Erwan Fach, Llangrannog, Ceredigion, yn fab David ac Eleanor Evans. Ychydig o addysg ffurfiol a gafodd yn ei febyd ond gwyddys iddo gael ysbaid yn ysgol ' Cranogwen ' ym Mhontgarreg. Ar ôl etholiad cyffredinol 1868 trowyd ei deulu allan o'u cartref am fod y tad wedi pleidleisio i'r ymgeisydd Rhyddfrydol, a symudwyd i ffermdy Pant-teg yng nghyffiniau'r Ceinewydd. Pan oedd yn ddeuddeg oed derbyniwyd ef yn brentis gan siopwr yn Llangrannog. Wedi 3 blynedd yno aeth i weithio mewn siop groser a dilledydd yng Nghendl, Gwent. Tuag 1877 penderfynodd ymgynnig i'r weinidogaeth a phregethodd am y tro cyntaf yng nghapel Maen-y-groes ger y Ceinewydd. Aeth i ysgol a gedwid gan C.H. Hughes yn festri capel Tywyn (A), Ceinewydd, ac yn 1881 ef oedd y cyntaf o'r ysgol honno i gael ei dderbyn i Brifysgol Llundain. Aeth i Goleg Newydd, Llundain, lle yr oedd Samuel Newth yn brifathro, i ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth, gan ennill gradd B.A. yn 1884 a'r A.T.S. yn 1886. Bu'n athro cynorthwyol yn ysgol Watcyn Wyn yn Rhydaman nes cael ei wahodd i weinidogaethu yn eglwysi Castell Paen a Rhos-goch, Maesyfed, yn 1887. Oddi yno symudodd i Aberhonddu i ofalu am eglwys Saesneg Glamorgan Street yn 1894. Ar ôl marwolaeth John Morris, prifathro 'r Coleg Coffa yn y dref honno, yn 1896, cafodd ei wahodd (ac yntau'n parhau i fugeilio'r eglwys) i ddarlithio ar yr Hebraeg am dipyn yno. Pan sefydlwyd y gyfadran ddiwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru cafodd ei wahodd i ddarlithio ar hanes yr Eglwys am flwyddyn yn 1901 ac adnewyddwyd y gwahoddiad yn flynyddol nes ei benodi'n athro llawn yn 1905 a'i wneud yr un pryd yn ysgrifennydd ariannol y coleg (hyd 1942). Arhosodd yn ei gadair nes ymddeol yn 1943 a chael y teitl Athro Emeritus.

Derbyniodd ddulliau ysgolheictod modern wrth drin y Beibl a hanes Cristionogol. Gellir dirnad ei ryddfrydiaeth ddiwinyddol yn ei esboniad ar *Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid* (1926). Cyfrannodd lith am Annibyniaeth yng nghyffiniau Castell Paen a'r Gelli at y gyfrol *The history of Congregationalism in Breconshire and Radnorshire* (gol. Joseph Jones; 1912) ac yr oedd ymhlith y cyfranwyr at *Llyfr Gwasanaeth* yr Annibynwyr (1926). Cyfrannai hefyd i *Y Tyst* ac *Y Dysgedydd*. Yr oedd yn gadeirydd bwrdd llywodraethwyr ysgol ramadeg Aberhonddu, 1921-31. Trwy ei ffydd dawel a mwynder ei bersonoliaeth cafodd ei ystyried yn ' r Duw' di-uchelgais a digenfigen y coleg. Gwyddai pawb am ei hoffter o Aberhonddu a Brycheiniog ac yn 1957 anrhydeddwyd ef â rhyddfreiniad y fwrdeistref. Pregethodd am y tro olaf yng nghapel Tredomen, ger Aberhonddu, 11 Tachwedd 1962. Yr oedd yn ddibriod. Bu farw ddydd Calan 1963 yn ei lety yn Aberhonddu, ei gartref am lawer o flynyddoedd. Ymhen ychydig fisoedd buasai wedi cyrraedd 105 oed. Claddwyd ef ar adeg o eira mawr ym mynwent gyhoeddus y dref.

## Awdur

**William Thomas Pennar Davies**, (1911 - 1996)

## Ffynonellau


*The Congregational Year Book*, 1963-4

*Blwyddiadur yr Annibynwyr Cymraeg*, 1964

adroddiadau'r Coleg Coffa, 1896-7, 1901-6, 1942-3

Pennar Davies (gol.), *Athrawon ac Annibynwyr* (1971) (1971), 20-30

gwybodaeth gan D.W. Godfrey Evans, Llandysul,

a Thomas Richards, Aberhonddu

adnabyddiaeth bersonol


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746812


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu